

**Nawr yw'r amser i siarad am roi organau**  
**Time to talk about organ donation**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013**

**Adroddiad a osodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru o dan Adran 2.(3)**

**Rhagfyr 2018**

# **Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013: Adroddiad a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Reol Sefydlog 2.3**

## **Cyflwyniad**

1. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (“y Ddeddf”) ar 10 Medi 2013. Mae'r Ddeddf wedi creu system o gydsynio i roi organau ar ôl marw yng Nghymru. Ar 1 Rhagfyr 2015, mabwysiadodd Cymru system feddal o optio allan o roi organau, neu “gydsyniad tybiedig”. Mae hyn yn golygu y gellir tybio bod pobl yn cydsynio i roi organau oni bai eu bod wedi nodi'n wahanol, a chânt eu trin fel pe na bai ganddynt wrthwynebiad i roi organau ar ôl marw. Drwy newid y ddeddfwriaeth yn y modd hwn, ac wrth i gymdeithas ddechrau ystyried mai dyma'r ‘norm’, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cynnydd, dros gyfnod, yn y nifer sy'n rhoi organau.

2. Er na ddaeth y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf i rym tan 1 Rhagfyr 2015, cychwynnodd rhai adrannau ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol gan gynnwys Adran 2, yn fwyaf arbennig, sy'n ymwneud â dyletswydd Gweinidogion Cymru i hysbysebu'r trefniadau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf.

3. Hefyd, o dan Adran 2 (3) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am bum mlynedd o fis Medi 2013 ymlaen a bydd yr adroddiadau hynny'n ymdrin â'r gwaith a wnaed i:

- Hyrwyddo trawsblannu fel ffordd o wella iechyd pobl yng Nghymru;
- Darparu gwybodaeth am drawsblannu a chodi ymwybyddiaeth o drawsblannu;
- Rhoi gwybod i'r cyhoedd am amgylchiadau pan dybir bod pobl wedi cydsynio i'w horganau gael eu trawsblannu os nad ydynt wedi trafod neu gofrestru eu dymuniadau; a
- Sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i fyrddau iechyd lleol yn cynnwys y sgiliau a'r cymwyseddau arbenigol sy'n ofynnol at ddibenion y Ddeddf hon.

4. Yr adroddiad hwn yw'r pedwerydd o bump o adroddiadau blynyddol sy'n amlinellu'r gwaith a wnaed yn y cyswllt hwn. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 15 Tachwedd 2017 ac 16 Tachwedd 2018.

## **Cefndir**

5. Mae Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yn darparu fframwaith ar gyfer cyflwyno system cydsynio i roi organau. Caiff y system hon ei galw'n system “optio allan meddal” neu “gydsyniad tybiedig”. Mae'r gyfraith yn gyfrwng i ysgogi newid diwylliannol mewn ymddygiad ac agweddau tuag at gynyddu'r nifer sy'n cydsynio i roi organau.

6. Er mwyn rhoi'r system ar waith yn ddidrafferth ac yn llwyddiannus, trefnwyd ymgyrch eang i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac i sicrhau bod poblogaeth Cymru yn

ymwybodol o'r newidiadau ac yn deall sut yr oeddent yn effeithio arnynt.

7. Prif swyddogaeth yr ymgyrch gyfathrebu a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Mawrth 2016 oedd: hysbysu pobl am y newid yn y ddeddfwriaeth; esbonio'n glir y dewisiadau sydd ar gael wrth gofrestru penderfyniad am roi organau (cydsynio neu wrthod) a goblygiadau peidio â chofrestru penderfyniad, pan dybir bod unigolyn wedi cydsynio. Fodd bynnag, gwnaed y gwaith yng nghyd-destun cyffredinol negeseuon cadarnhaol am roi organau a'r gwahaniaeth y gall ei wneud i fywydau unigolion a'u teuluoedd. Roedd pobl hefyd yn cael eu hannog i drafod eu penderfyniad gyda'u hanwyliaid.

8. O fis Ebrill 2016 ymlaen, newidiodd pwyslais yr ymgyrch gyfathrebu: y nod oedd atgoffa pobl o'u dewisiadau yn ogystal â'u hannog i drafod eu penderfyniad gyda'u hanwyliaid.

9. Roedd rhywfaint o ddryswch o hyd ymhlith y cyhoedd ynglŷn â rôl y teulu felly, yn 2017, ac ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf, penderfynwyd symud pwyslais y gwaith cyfathrebu i annog pobl i egluro'u dymuniadau o ran rhoi organau, ac i drafod eu penderfyniad â'u hanwyliaid. Y nod yw ymdrin â'r problemau sy'n codi pan fydd y teulu'n anwybyddu dymuniad eu hanwyliaid i roi eu horganau, ac yn gwrthod derbyn system sy'n seiliedig ar gydsyniad tybiedig. Mae'n ceisio codi ymwybyddiaeth o rôl teuluoedd/partneriaid yn y broses o anrhydeddu penderfyniad eu hanwyliaid, yn ogystal ag annog pobl i ddweud wrth eraill am eu penderfyniad.

## **Amcanion**

10. Dyma amcanion polisi pwysicaf y ddeddfwriaeth:

- Cynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu;
- Creu amgylchedd lle'r ystyrir mai rhoi organau yw'r norm cymdeithasol.

11. Dyma amcanion polisi'r ymgyrch gyfathrebu bresennol:

- Lleihau nifer y teuluoedd sy'n anwybyddu dymuniad a gofrestrwyd i roi organau neu'r teuluoedd nad ydynt yn cefnogi'r system sy'n seiliedig ar gydsyniad tybiedig;
- Gwella cyfraddau rhoi organau;
- Cynyddu'r nifer sy'n rhoi organau a nifer y trawsblaniadau;
- Cynyddu'r nifer sy'n cofnodi penderfyniad naill ai ar y gofrestr rhoi organau neu drwy ddweud wrth eu teulu neu eu ffrindiau.

12. Amcanion cyfathrebu:

- Cynyddu'r nifer sy'n trafod eu penderfyniad i roi organau (54% ym mis Medi 2017) â'u hanwyliaid – gall hyn gynnwys eu teuluoedd, eu partneriaid neu eu ffrindiau;

- Cynyddu'r nifer sy'n deall eu dewisiadau o dan y system cydsyniad tybiedig (70% ym mis Medi 2017).

## Y gyllideb

13. £310,000 yw'r gyllideb ar gyfer yr holl waith cyfathrebu'n ymwneud â rhoi organau yn 2018-19, wedi i'r gyllideb gynyddu i £350,000 yn 2017-18 er mwyn talu am yr ymgyrch hysbysebu newydd (hyd at £200,000 yn 2015-16).

## Y dull

14. Lanswyd yr ymgyrch ar 1 Tachwedd 2017 drwy gyfrwng hysbysebion ar y teledu, y radio a'r cyfryngau digidol, a defnyddiwyd gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau cymdeithasol i ategu hyn. Roedd cyfnod cyntaf yr ymgyrch (pan ddefnyddiwyd cyllideb 2017-18) yn cynnwys tair cyfres o hysbysebion a gwaith cysylltiadau cyhoeddus cyson. Trefnwyd gweithgareddau amlwg eraill i gyflwyno wythnos codi ymwybyddiaeth newydd o'r rhaglen Rhoddwyr Byw (Ebrill 2018), a rhagor o weithgareddau fel rhan o Wythnos Rhoi Organau ym mis Medi 2018. Dechreuodd ail gyfnod o hysbysebu ar y teledu, y radio a'r cyfryngau digidol ar 3 Medi, a chyfnod hysbysebu arall ym mis Tachwedd 2018.

Rydym wedi parhau i ddefnyddio astudiaethau achos fel rhan o'r gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus gan fod y rhain wedi llwyddo i ledaenu'r negeseuon.

## Y prif negeseuon

- Mae'n bwysig trafod eich penderfyniad i roi organau gyda'ch teulu.
- Byddai'ch teulu bob amser yn rhan o unrhyw drafodaeth ynghylch bwrw ymlaen i ddefnyddio'ch organau. Mae'n bwysig eu bod yn gwybod am eich penderfyniad er mwyn iddynt fedru ei anrhydeddu.
- Gallwch gofrestru penderfyniad unrhyw adeg drwy ffonio 0300 123 23 23, drwy fynd i <https://beta.llyw.cymru/ymgyrch-siarad-am-roi-organau> neu drwy ddweud wrth eich teulu a'ch ffrindiau.

## Galw ar bobl i weithredu

15. Mae deunyddiau ymgyrchu newydd (hysbysebion ar y teledu a'r radio) yn annog pobl i fynd i wefan Rhoi Organau Cymru.

Fel rhan o'r gwaith o ddiweddarau gwefan Llywodraeth Cymru, symudwyd yr holl wybodaeth am roi organau ynghyd â gwefan yr ymgyrch i gyfeiriad newydd ym mis Awst 2017, sef <https://beta.llyw.cymru/rhoi-organau-canllaw>

Cyfeiriad ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yw: Twitter @OrgDonationCYM a Facebook @OrganDonationWales.

## Y prif lwyddiannau

### Cysylltiadau cyhoeddus

16. Roedd gwaith cysylltiadau cyhoeddus, gan gynnwys ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, yn mynd rhagddo drwy gydol 2017-18 gan barhau yn 2018-19. Nod y negeseuon oedd sicrhau bod pobl Cymru yn parhau i ddeall y dewisiadau a oedd ganddynt o ran rhoi organau; annog pobl i drafod eu penderfyniad â'u hanwyliaid; a'u hannog i gofrestru eu penderfyniad. Mae storïau rhagweithiol yn cael eu lledaenu'n gyson ar y cyfryngau cenedlaethol a lleol a hynny ar-lein, mewn print ac ar y cyfryngau darlledu. Mae'n cefnogi'r gwaith hysbysebu drwy gyflwyno straeon am bobl sydd wedi elwa o'r system rhoi organau a'r broses drawsblannu.

### Y wefan


17. Gwefan yr ymgyrch yw'r prif ddull o alw ar bobl i weithredu, ac mae'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am roi organau a'r system newydd yng Nghymru. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ar dudalennau'r polisi rhoi organau ar brif safle Llywodraeth Cymru ynghyd â chanllaw hawdd ei ddefnyddio. Mae'r graffiau a ganlyn yn dangos faint a edrychodd ar hen wefan yr ymgyrch rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Awst 2018, ac yn dangos faint edrychodd ar y tudalennau newydd yr ymgyrch ers diwedd mis Awst.

Cafwyd dros 59,271 o ymweliadau â'r wefan rhoi organau yng Nghymru a hynny gan 50,260 o ddefnyddwyr, ac roedd 90% o'r rhain yn ymwelwyr newydd. Mae hyn yn gynydd o 45% yn nifer yr ymwelwyr a'r defnyddwyr ers y flwyddyn flaenorol.

**Tachwedd – Rhagfyr 2017 (Lansio ymgyrch newydd ym mis Tachwedd. Hysbysebion radio a theledu wedi'u darlledu 4-19 Rhagfyr. Cyhoeddusrwydd ar 1 Rhagfyr i nodi tair blynedd ers cyflwyno'r gyfraith newydd)**



## Ionawr – Mai 2018 (Wythnos Rhoddwyr Byw, Ebrill 2018/hysbysebion teledu a radio ym mis Mai)



## Mehefin – Awst 2018



## Medi – Tachwedd 2018 (Wythnos Rhoi Organau/hysbyseb teledu/radio newydd wedi dechrau ar 3 Medi)



## Pecyn addysg i ysgolion

18. Dydd Mercher 14 Mawrth 2018, lansiwyd yr adnodd addysg cyntaf i ysgolion Cymru yn ymdrin â rhoi organau. Datblygwyd pecyn addysg dwyieithog ar gyfer disgyblion 11-15 oed (cyfnodau allweddol 3 a 4).

Paratowyd y pecyn drwy gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, ac maent yn cynnwys cynllun gwers, gweithgareddau, ffilmiau byr yn cyflwyno astudiaethau achos, a chanllawiau i athrawon.

Nod y pecyn yw annog disgyblion i:

- Ddisgrifio sut y gellir achub a gwella bywydau drwy roi organau;
- Esbonio rhai o'r rhesymau dros benderfynu rhoi organau a meinweoedd;
- Deall pam mae'n bwysig ymuno â chofrestr Rhoi Organau'r GIG;

- Deall sut i siarad â phobl am roi organau a meinweoedd;
- Deall y dewisiadau y mae'n rhaid eu hystyried o ran y system rhoi organau yng Nghymru;
- Deall mai eu penderfyniad nhw yw rhoi organau, a'i bod yn bwysig dweud wrth eraill am y penderfyniad.

Mae pecyn ar gael gydag adnoddau eraill i ysgolion eraill ar Hwb:

<https://hwb.gov.wales/repository/resource/f8c5e75f-f280-440d-b3b2-c5a33b0b031b/cy>

Mae staff Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi defnyddio'r pecyn fel rhan o'u gwaith gydag ysgolion Cymru, ac mae athrawon wedi'i ddefnyddio'u hunain hefyd. Byddwn yn gwerthuso faint o ddefnydd a gaiff y pecyn ac yn ei addasu'n ôl y sylwadau a gawn gan yr ysgolion sy'n ei ddefnyddio.

Mae ein swyddogion ac elusen Believe wedi bod yn trafod datblygu adnoddau i ddisgyblion iau er mwyn cynorthwyo'r elusen i godi ymwybyddiaeth drwy gyfrwng fideo Fraser Bear.

## **Deunyddiau gwybodaeth**

19. Rydym wedi parhau i hyrwyddo a dosbarthu amrywiaeth o ddeunyddiau, gan gynnwys y daflen wybodaeth A5 ddwyieithog i annog pobl i drafod eu penderfyniad â'u teuluoedd.

Mae gwybodaeth ar gael mewn fformatau gwahanol a hygyrch gan gynnwys deunyddiau hawdd eu darllen, mewn braille neu brint bras, fideo Iaith Arwyddion Prydain yn ogystal â deunyddiau mewn amrywiaeth o ieithoedd ethnig lleiafrifol.

## **Y cyfryngau cymdeithasol**

20. Defnyddir Facebook a Twitter i hyrwyddo'r ymgyrch yn ddwyieithog. Byddwn yn ymateb i sylwadau a chwestiynau os yw hynny'n briodol a hynny er mwyn helpu pobl i ddeall y system. Caiff y dudalen Facebook ei hyrwyddo o hyd drwy hysbysebu. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran lledaenu'r neges yn ehangach. Cynyddodd y nifer a oedd yn 'hoffi' y dudalen o dros 4,000 (yn ôl yr ystadegau ar gyfer 13/10/14) i 16,872 (15/11/2018). Roedd cydberthynas rhwng cyfnodau hysbysebu ar Facebook a'r nifer a ddangosodd eu bod yn 'hoffi' y dudalen.

Mae gan ein cyfrif Twitter 1,500 o ddilynwyr yn awr (fel ar 15/11/2018).

**Twitter:** @OrgDonationCYM

**Facebook:** Organ Donation Wales

## **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

21. Cyhoeddwyd e-fwletin i randdeiliaid ar adegau allweddol yn 2017-18. Caiff y cylchlythyr ei anfon i oddeutu 289 o bobl.

22. Yn ystod yr Wythnos Rhoi Organau ym mis Medi, roedd gan randdeiliaid fel Arennau Cymru, British Liver Trust a phobl a oedd wedi cael trawsblaniad, stondinau yng nghyntedd swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, a hynny mewn partneriaeth â Rhoi Organau Cymru, er mwyn ymgysylltu â staff ac ymwelwyr.

## **Canolbwyntio ar Roddwyr Byw, Ebrill 2018**

23. Am y tro cyntaf, penderfynodd Rhoi Organau Cymru roi'r pwyslais ar roddwyr byw gyda'r bwriad o sefydlu 'wythnos codi ymwybyddiaeth' at y diben hwn.

Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a defnyddiwyd astudiaethau achos a gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol i ategu'r ymgyrch.

<https://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2018/living-doner/?skip=1&lang=cy>

Cynhaliwyd ymgyrch yn canolbwyntio ar roddwyr byw dros gyfnod o bythefnos. Dyma'r canlyniad:

- 1,220 o ymwelwyr a 1,369 o ymweliadau â gwefan yr ymgyrch – cynnydd o 48% a 39% yn y drefn honno
- Edrychodd 224 ar dudalen we newydd yn sôn am roddwyr byw
- Llwyddwyd i gyrraedd dros 42,000 o bobl ar Facebook drwy gyfrwng 12 neges Facebook (6 Saesneg, 6 Cymraeg)
- Yn dilyn 10 neges Twitter (5 Saesneg, 5 Cymraeg), cafwyd bron 35,000 o argraffiadau a chafodd y negeseuon eu haildrydar 95 gwaith
- 10 - 15 ymholiadau i gydgyssylltydd rhoddwyr byw De Cymru. Daeth yr ymholiadau i law yn ystod y bythefnos dan sylw ac, fel arfer, dyma'r nifer a ddaw i law mewn cyfnod o dri mis.

## **Sioeau teithiol dros yr haf**

24. Dros yr haf, aethom i bedwar digwyddiad yng Nghymru i gynnal sioe deithiol #SiaradAmRoiOrganau ac annog pobl i drafod eu penderfyniad i roi organau â'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Dangosodd arolwg fod 48% ohonom yn cael ein sgysiau pwysicaf yn ein bywydau tra byddwn yn eistedd ar y soffa, felly aethom ati i greu ystafell fyw ffug i annog y cyhoedd i eistedd a sgwrsio am roi organau yn y fan a'r lle.



Dyma oedd amcanion y digwyddiadau:

- Rhoi cyfle i bobl Cymru fod yn agored a sgwrsio â'u ffrindiau a'u teuluoedd am roi organau
- Annog rhagor o bobl i ddweud wrth eu hanwyliaid am eu penderfyniad i roi organau
- Rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar bobl Cymru i gofrestru ar y gofrestr rhoi organau
- Cynyddu'r nifer sy'n sgwrsio am roi organau.

Lleoliadau: Sioe Sir Benfro, Ras 10K Nation Radio Caerdydd, yr Eisteddfod Genedlaethol, Gŵyl y Caws Mawr (Caerffili).

	Gŵyl y Caws Mawr Caerffili	Yr Eisteddfod	Sioe Sir Benfro	Ras 10k Caerdydd
Nifer yr ymgysylltwyd â nhw	450	970	1300	600
Nifer a ddaeth i'r stondin	177	365	325	20
Sgyrsiau	25	27	25	3
Sgyrsiau dilynol	22	35	85	10
Penderfyniadau a gofrestrwyd	12	64	67	3
Penderfyniadau dilynol	8	40	25	10

### Wythnos Rhoi Organau, 3 – 9 Medi 2018

25. Yn ystod Wythnos Rhoi Organau, canolbwyntiodd yr ymgyrch ar lansio cyfnod hysbysebu newydd, gan ddefnyddio gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus hefyd i annog pobl i drafod eu penderfyniad i roi organau â'u teuluoedd.

Newyddion Llywodraeth Cymru:

<https://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2018/donate18/?skip=1&lang=cy>

Erthygl Wales Online, gan gynnwys astudiaethau achos, dyfyniad gan Ysgrifennydd y Cabinet a'r hysbyseb: <https://www.walesonline.co.uk/news/health/journey-organ-donation-desperate-patients-15117997>

# The journey of organ donation by desperate patients, grieving families and those on the road between death and life

Despite 30,000 people dying in Wales each year, as few as 70 of them end up becoming organ donors.

SHARE 597 SHARES 7 COMMENTS By Mark Smith Health Correspondent 12:25, 7 SEP 2018 UPDATED 13:06, 7 SEP 2018 NEWS

Enter your postcode for local news and info

Enter your postcode

Go



Engbreiffiau eraill o wybodaeth yn y wasg:

CARDIFF TIMES  
YOUR QUALITY LOCAL MAGAZINE

Summer sofa tour aims to get people of Wales talking about Organ Donation

A special sofa will be hitting the streets of Wales this month for a series of #TalkOrganDonation summer roadshows to get more people sharing their organ donation decisions with their friends and families.

A new survey has revealed that 49% of us have our most important life-changing chats while sitting on the sofa. So, the Organ Donation Wales team is creating a pop-up mobile living room to encourage members of the public who are out and about at events over the summer to sit down and have the organ donation chat then and there. The survey found that the sofa was the top spot to have an important chat with loved ones, while 31% of people prefer to talk at the dinner table and just 3% have their important discussions in their local walking hole. The #TalkOrganDonation summer tour will launch at The Caspally Big Cheese on July 28-29, before moving to The Esteddfod on August 7-9, and concluding at the Pembrokeshire show on August 14-16. Wales became the first country in the UK to introduce a soft opt out system. This means that everyone over 18 who lives and dies in Wales and does not have a registered organ donation decision will be treated as having no objection to becoming a donor when they die. While 70% of people in Wales are aware of the legislation, most people are unaware that their families can override their decision to donate their organs even though they are opted-in.

In 2016-17, there were 21 cases in Wales of families overriding their deceased relatives' decision to be a donor, so to make it easier for your family to support donation tell them what you want to do. Organ Donation Wales is keen to get the people of Wales sharing their organ donation decisions with their families. Sarah Crosby, Specialist Nurse in Organ Donation said: "When a family member or close family friend know that their loved one wanted to donate their organs after death, they are far more likely to support that decision. It is much more difficult if there is uncertainty. Letting your family know your organ donation decision will make it much easier for them to support what you want."

Before the opt-in system, in 43% of cases where organ donation was possible, families said no to donation simply because they didn't know whether their loved one wanted to be a donor. From experience, we know that if family members are aware of a person's decision on organ donation, nine times out of ten, families will support their choice.

When Jason Leigh's father-in-law had a heart transplant in November 2006, he and his wife Laura had discussed organ donation and agreed that if anything happened to either of them, they would donate their organs. Sadly, nine years later, in September 2015, Jason (who was 30 at the time) was faced with just that when Laura, who he had married just five months earlier, suffered a cardiac arrest and passed away at just 31 years of age.

Jason said "Organ donation was regularly a topic of discussion for us. For me, donating Laura's organs when she died was a no-brainer. It was what she wanted, to be able to give someone the opportunity to live when there was no other hope. The ultimate gift."

Vaughan Gething, Cabinet Secretary for Health and Social Services said: "We hope that by running these roadshows and giving the people of Wales the opportunity to open up and have these important chats with their friends and family, it will encourage more people to share their organ donation decisions with their loved ones. Talking about your decision can help benefit so many people across Wales and the rest of the UK so we're keen to make sure people have that all-important chat, whenever they feel most comfortable."

You can register a decision at any time by calling 0300 123 23 23 or visiting [www.organdonationwales.org](http://www.organdonationwales.org). But whatever you decide, tell your family and friends too. How will they know what you want if you don't tell them? And don't forget to ask them what they want as well.

Carmarthen Journal

## Son's 'food poisoning' was organ failure – but mum saved his life

MARK SMITH

mark.smith@walesonline.co.uk

WHEN Lewis Evans began feeling terribly sick, he initially put it down to a nasty bout of food poisoning.

But it turned out the 26-year-old was suffering from chronic kidney disease which would require a transplant.

And after seeing him endure countless hours of dialysis, Lewis's doctoring mum stepped forward to donate a kidney to save her precious son's life.

Lewis, from Tringarn, Ceredigion, said his mum gave him the 'best gift' anyone could ask for.

"Since the operation and everything that happened to me, I feel like my mum and I are closer than ever before. We now have such a special bond," said Lewis.

"I always try to show her how thankful I am and treat her to a little bit more on her birthday and Christmas. I don't think a simple card will suffice now."

Lewis, a talented rugby player, had just started working for Natural Resources Wales in Cardiff when he started feeling unwell.

After getting blood tests done at his GP surgery, he was told to visit the University Hospital of Wales in the city.

"I didn't think much of it at the time," he added. "When I saw the book on the internet's faces when I

arrived, it was clear they were expecting someone who looked much more unwell than me.

"When they told me my kidneys had failed on me, I just told them to give me the medication and I'd be on my way."

"It was only at the point where they were insisting on calling my parents and helping me in hospital that I realised how bad things were and broke down."

Lewis spent a month in a UHW ward while doctors tried to reverse the dangerous toxins from his body.

And while he was on the transplant waiting list, which took 16 months in total, Lewis underwent dialysis three times a week at hospitals in Cardiff, Carmarthen and Aberystwyth.

He added: "That's all my life consisted of. I'd wake up, wait for dialysis, have dialysis and then recover from dialysis."

"It couldn't do any physical activity as I was just so weak."

Following tests, it was discovered that Lewis's mother, Gay, and his sister, Angela, were both a suitable match to donate their kidneys. Brave Gay, who said she didn't want both of her children in hospital, decided that she would be the donor.

So, in January 2017, Lewis and Gay went under the knife for the transplant

at UHW.

"I was so lucky that members of my family were a match and able to donate but that's not the case for so many," he added.

Lewis had always been athletic, but during his dialysis treatment he decided to add value to his life again.

After Groggling his condition, he found out about the Transplant Games and started training at National Indoor Athletics Centre in Cardiff.

"Focusing on competing in the games literally gave me a new lease of life," he said.

"I had to be careful after my operation limiting my training sessions and the weights I was using, but I really enjoyed overruling people who are lucky enough to have two kidneys on the running track."

After competing at the British Transplant Games in 2017 and the European Transplant Games in Saratonia this year Lewis has

bagged a gold medal in 4x100m relay, silver and bronze in the 4x50 swimming relay - the first time he's ever competed as a swimmer.

The 41st edition of the games, held in Birmingham, featured competitors from across the UK.

all of whom had received either kidney, liver, heart, lung, pancreas, or bone marrow transplant, or were dialysis patients.

"I was an emotional winner of all those medals, especially the 100 metres sprint as that was the big one."

"There was a bit of confusion over who won it but soon as they said my name, I went wild. I burst into tears and threw my running spikes on the floor - I just couldn't believe how far I'd come."

"I called my mum straight away to tell her and to thank her for giving me the best gift."

Wales became the first country in the UK to introduce a soft opt-out organ donation system, which means that everyone over 18 who has not registered their organ donation decision will be treated as having no objection to being a donor if they die.

While more than 70% of people in Wales are aware of the legislation, most people are unaware that their families can override their organ donation decision even though they are opted-in.

In 2017-18, five families overrode their loved one's known organ donor registration to donate, and in the 49 cases where consent was applied, there were 14 cases where the family did not support consent.

Organ Donation Wales

## A young man who went from thinking he had food poisoning to having organ failure

His life was saved by his dotting mum who donated her kidney to him

When Lewis Evans began feeling terribly sick, he initially put it down to a nasty bout of food poisoning. But it turned out the 25-year-old was suffering from chronic kidney disease which would require a transplant. And after seeing him endure countless hours of dialysis, Lewis' dotting mum stepped forward to donate a kidney to save her precious son's life.

Lewis, from Tregaron, Ceredigion, said his mum gave him the "best gift" anyone could ask for. "Since the operation and everything that's happened to me, I feel like my mum and I are closer than ever before. We now have such a special bond," said Lewis.

"I always try to show her how thankful I am and treat her to a little bit more on her birthday and Christmas. I don't think a simple card will suffice now."

Lewis, a talented rugby player, had just started working for Natural Resources Wales in Cardiff when he started feeling unwell.

After getting blood tests done at his GP surgery, he was told to visit the University Hospital of Wales to get the results.

"I didn't think much of it at the time," he added.

"When I saw the look on the nurses' faces when I arrived, it was clear they were expecting someone who looked much more unwell than me."

"When they told me my kidneys had failed on me, I just bid them to give me the medication and I'd be on my way."

"It was only at the point where they were insisting on calling my parents and keeping me in hospital that I realised how bad things were and broke down."

Lewis spent a month on a U+M bed while doctors tried to remove the cancerous toxins from his body. And while he was on the transplant waiting list, which took 16 months in total, Lewis underwent dialysis three times a week at hospitals in Cardiff, Carmarthen and Aberystwyth.

He added: "That's all my life consisted of. I'd wake up, wait for dialysis, have dialysis and then recover from dialysis."

"I couldn't do any physical activity as I was just so weak."

Following tests, it was discovered that Lewis' mother Gay and his sister Angela were both a suitable match to donate their kidneys.

Erave Gay, who said she didn't want both of her children in hospital, decided that she would be the donor.

So in January 2017, Lewis and Gay went under the knife for the transplant at UHW.

"I was so lucky that members of my family were a match and able to donate but that's not the case for so many," he added.

Lewis had always been athletic, but during his dialysis treatment he decided to add value to his life again. After Googling his condition, he found out about the Transplant Games and started training at National Indoor Athletics Centre in Cardiff.

"Focusing on competing in the games literally gave me a new lease of life," he said.

"I had to be careful after my operation limiting my training sessions and the weights I was using, but I really enjoyed overtaking people who are lucky enough to have two kidneys on the running track."

After competing at the British Transplant Games in 2017 and the European Transplant Games in Sardinia this year Lewis has continued to train hard.















## Y cyfryngau cymdeithasol:
















26. Enghreifftiau o gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol a'r prif negeseuon / sylwadau:

## Saesneg:

Neges	Nifer a welodd y neges	Math o gynnwys
<p>Speak up or someone else may speak for you  Here's what</p>	<p>46.6K  5.8K  903 </p>	Cynnwys penodol a grëwyd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
<p>To all the teams that helped complete 6 kidney transplants in</p>	<p>17.2K  867  565 </p>	Newyddion
<p>Do you know what a SNOD is? Specialist Nurse Organ</p>	<p>16.7K  900  235 </p>	Astudiaeth achos
<p>You wouldn't let your family decide the colour of your</p>	<p>15.1K  381  28 </p>	Cynnwys penodol a grëwyd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

 You wouldn't let your dad decide your baby's name 🤔 so why let	13.9K 	575 23 	Cynnwys penodol a grëwyd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
 Want to be an organ donor? Why wait? 190 people in Wales	13.9K 	184 127 	Wythnos Rhoi Organau
 "People say that losing a twin is like losing your spouse, but	12.6K 	337 513 	Astudiaeth achos
 Mike is a Transplant Surgeon based in Cardiff 🇬🇧 Listen	11.1K 	969 384 	Astudiaeth achos/ rhan o Wythnos Rhoi Organau

### Cymraeg:

Neges	Nifer a welodd y neges	Math o gynnwys	
 Mae'n Wythnos Genedlaethol Adrodd Straeon. Gwnaeth	8.2K 	528 138 	Astudiaeth achos
 Siaradwch cyn i rywun arall siarad ar eich rhan 🗣️ Dyma	6.1K 	276 45 	Cynnwys penodol a grëwyd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
 Roedd Lewis yn byw bywyd heini cyn dioddef methiant	5.4K 	22 30 	Astudiaeth achos
 Edrychwch ar ein hysbyseb newydd am drafod rhoi organau	4.6K 	64 51 	Hysbysebu teledu
 "Mae pobl yn dweud fod colli efaill fel colli cymar, ond rwy'n	4.5K 	134 54 	Astudiaeth achos

### Trefniadau cyfathrebu mewnol Llywodraeth Cymru

27. Yn ogystal â'r sesiynau i randdeiliaid y soniwyd amdanynt uchod, defnyddiwyd ymgyrch posteri, eitem newyddion ar y fewnwyd a nwyddau fel cerdyn rhoi organau dwyieithog magnetig i'w roi ar ddrws yr oergell a chardiau i'w rhoi ar gylch allweddi i annog staff a theuluoedd Llywodraeth Cymru i drafod rhoi organau.

## **Hysbysebu: lansiyd yr ail gyfnod ymgyrchu ar 3 Medi 2018**

28. Mae'r ymgyrch yn parhau i ymdrin â'r problemau sy'n codi pan fydd y teulu'n anwybyddu dymuniad eu hanwyliaid i roi eu horganau, ac yn gwrthod derbyn system sy'n seiliedig ar gydsyniad tybiedig. Mae'n ceisio codi ymwybyddiaeth o rôl teuluoedd/partneriaid yn y broses o anrhydeddu penderfyniad eu hanwyliaid, yn ogystal ag annog pobl i ddweud wrth eraill am eu penderfyniad.

## **Tystiolaeth**

29. Mae data a gyhoeddwyd gan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 yn dangos y canlynol:

- Cafwyd 21 o achosion pan benderfynodd teuluoedd anwybyddu dymuniad a gofrestrodd perthynas iddynt ar y gofrestr rhoi organau, neu pan benderfynodd teulu wrthod derbyn y system cydsyniad tybiedig. O gofio bod pawb sy'n rhoi organau'n rhoi 3.1 organ ar gyfartaledd, collwyd cyfle i drawsblannu 65 o organau ychwanegol;
- Cafwyd organau gan 74 o bobl a fu farw yng Nghymru, sef 13 mwy nag yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- Trawsblannwyd 137 o organau gan bobl a fu farw, o'i gymharu â 135 yn 2016-17;
- Roedd 234 o bobl yn aros am drawsblaniad, sef gostyngiad o 9 ers 2016-17;
- Cafwyd organau gan 31 o roddwyr byw, sef 5 yn llai nag a gafwyd yn 2016-17;
- Cafwyd 42 trawsblaniad gan roddwyr byw, sef 10 yn llai nag a gafwyd yn 2016-17;
- Bu farw 16 o bobl tra oeddent ar y rhestr aros o'i gymharu â 24 yn 2016-17.

## **Ymchwil i agweddau cymdeithasol**

30. Cafodd cwestiynau am roi organau eu cynnwys yn Arolygon Omnibws Cymru (a gynhaliwyd gan Beaufort Research) rhwng 2012 a 2018. Mae'n debyg bod modd priodoli'r diffyg cefnogaeth gan y teulu i'r ffaith bod y nifer sy'n trafod eu penderfyniad â'u hanwyliaid, yn ôl yr arolwg, wedi parhau'n gymharol isel er gwaethaf cynnydd o 38% i 54% rhwng mis Mehefin 2012 a mis Medi 2017.

Mae'r ymgyrch bresennol yn canolbwyntio ar rôl teuluoedd yn y broses a phwysigrwydd sgwrsio â theuluoedd/partneriaid.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal ymchwil drwy ddefnyddio Arolwg chwarterol Omnibws Cymru er mwyn mesur lefel yr ymwybyddiaeth a faint sy'n deall y prif negeseuon.

31. Roedd canlyniadau'r Arolwg Omnibws yn dangos y canlynol:

- Ym mis Medi 2017, roedd 54% o ymatebwyr wedi trafod eu dymuniadau â'u hanwyliaid. Cynnydd o 51% ers mis Mawrth 2017.
- Os yw person yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, roedd 73% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid trin hynny fel penderfyniad i roi organau, ac y dylid annog teuluoedd i dderbyn hynny. Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno â'r gosodiad hwn wedi amrywio o rhwng dau draean a thri chwarter ers i'r cwestiwn gael ei ofyn am y tro cyntaf yn nhon 11 (Mawrth 2016).
- Ym mis Mawrth 2018, roedd 82% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r system bresennol o roi organau. Mae hyn yn uwch na'r 70% a gofnodwyd ym mis Medi 2017 – mae'r cynnydd yn cyd-daro â'r pwyslais cynyddol ar ymgyrchu a'r hysbysebion a ymddangosodd ar y teledu a'r radio rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2018.

Mae'r adroddiadau diweddaraf wedi'u cyhoeddi yma:

<http://gov.wales/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?skip=1&lang=cy>

32. Mae'r ymgyrch newydd yn annog pobl i **“drafod rhoi organau, neu gall rywun arall siarad ar eich rhan”**.

### **Math o hysbysebu**

#### **Sianeli penodol**

- TV (ITV, S4C) – am dri chyfnod penodol: 4-19 Rhagfyr 2017; 13-30 Mehefin 2018; 3-16 Medi 2018.
- 4oD
- Sky Digital
- ITV Hub
- Radio masnachol (Heart De Cymru, Heart Gogledd Cymru, The Wave, Radio Ceredigion)
- Hysbysebion digidol ar-lein
- Twitter
- Instagram
- Hysbysebion Google search

## Engbreiffiau o hysbysebu

33. Mae'r hysbysebion teledu i'w gweld ar ein tudalennau Facebook a Twitter, ac mae fideos i'w gweld ar Youtube:

1. <https://www.youtube.com/watch?v=dT6Z0ipNVIY>
2. <https://www.youtube.com/watch?v=qWHVK-oSIRE>
3. <https://www.youtube.com/watch?v=b0ManRi24Ys>
4. <https://www.youtube.com/watch?v=xdX6CZdffD0>

## Gwybodaeth ddigidol am Roi Organau

### 34. Traffig i wefan yr ymgyrch

#### Yn ystod y cyfnod ymgyrchu ym mis Medi 2018:

- Cafwyd 7,526 sesiwn ar ein tudalennau gwe gan 6,534 o ddefnyddwyr.
- Roedd 85% o'r rhai a edrychodd ar y wefan yn gwneud hynny am y tro cyntaf.

Cawsom 3370 clic drwy gyfrwng ein hysbysebion. Roedd hyn yn cynnwys:


- 686 clic ar hysbysebion Facebook
- 2458 clic ar hysbysebion Twitter
- 104 clic ar hysbysebion Instagram.

## Facebook

Yn ystod yr ymgyrch ym mis Medi, gwelodd dros 10,000 o bobl ein hysbysebion bob dydd.

### Post Reach

The number of people who had any posts from your Page enter their screen.



Hysbysebion fideo ar Facebook:

*Hysbyseb Saesneg:*

Cafodd ei dangos 272,000 gwaith, cafodd ei gwyllo ar ei hyd 9,000 gwaith a chafodd 12,000 clic

*Hysbyseb Cymraeg:*

Cafodd ei dangos 108,000 gwaith, cafodd ei gwyllo ar ei hyd 2,300 gwaith a chafodd 3,000 clic bron

## Twitter

Yn ystod y cyfnod hwn cawsom:

- 240,000 o argraffiadau;



## Gweithgareddau cyfathrebu a dargedwyd at grwpiau penodol

### Myfyrwyr

35. Rydym wedi parhau â'r trefniant sydd gennym gydag UCAS i gyfathrebu'n uniongyrchol â myfyrwyr sydd wedi derbyn lle ym mhrifysgolion Cymru. Mae hyn yn cynnwys e-bost uniongyrchol a llythyr i'w cyfeiriad cartref i sicrhau bod eu teulu'n gwybod am y sefyllfa.

Anfonwyd yr e-bost at 7,252 o fyfyrwyr o'r tu allan i Gymru a'r llythyr uniongyrchol at 7,000. Agorwyd yr e-bost gan 61% o'r myfyrwyr a chliciodd 1.4% ar y linc. O ganlyniad, cafwyd 281 o ymweliadau â'n gwefan gan 251 o ymwelwyr.



## **Pobl ifanc 16-18**

36. Caiff llythyr ei anfon at bawb sydd ar fin troi'n 18 oed. Mae'n esbonio'r system a'u dewisiadau ac yn eu hannog i siarad â'u hanwyliaid. Rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Hydref 2018, anfonwyd dros 36,000 o lythyrau.

## **Cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a grwpiau ffydd**

37. Byddwn yn gweithio i adolygu ac ychwanegu at ein cysylltiadau a'n hadnoddau presennol i dargedu cymunedau BAME a grwpiau ffydd. Trefnwyd i ni gwrdd â chynrychiolwyr Fforwm Hil Llywodraeth Cymru i drafod dulliau o ymgysylltu ac o baratoi negeseuon i dargedu grwpiau penodol yng Nghymru, a bydd y gwaith hwn yn bwydo i gynllun a gaiff ei ddatblygu yn 2019.

Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar grŵp llywio cynllun buddsoddi cymunedol Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG a lanswyd ym mis Medi 2018. Nod y cynllun yw cyrraedd grwpiau drwy ariannu prosiectau dan arweiniad cyrff sydd eisoes wedi creu cysylltiadau â'r cymunedau hynny.

Cafodd ceisiadau ar gyfer y cynllun eu didoli ym mis Hydref 2018 ac mae tri phrosiect yng Nghymru. Bydd y rhain yn cael arian ac yn cael eu rhoi ar waith yn 2019.

## **Sgiliau a chymwyseddau yn y GIG**

38. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, yr awdurdod iechyd arbennig sy'n gyfrifol am reoli'r broses rhoi organau yng Nghymru, i sicrhau bod y broses o reoli'r newid yn y system gydsynio'n cydymffurfio â Chod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013.

Mae nyrsys arbenigol ym maes rhoi organau (SNOD) yn parhau i gael eu hyfforddi i sgwrsio am roi organau ac mae'r gwaith o'u cynorthwyo i reoli'r sgwrsiau hyn yn parhau. Dyma'r gwaith a aeth rhagddo yn ystod 2017-18:

- Dulliau cyfathrebu gwell rhwng y Gogledd a'r De ynghylch cysondeb a threfniadau archwilio;
- Trafodaethau egniol am y ffordd orau o archwilio sefyllfaoedd cymhleth;
- Cyfarfod i rannu arfer ac i drafod sut i ddechrau'r sgwrs ag unigolion ac i ddysgu o brofiad;
- Gwaith ychwanegol yn ymwneud â chyfathrebu â hwyluswyr y tu allan i'r GIG.

## **Gwerthuso**

39. Mae'r gwaith ymchwil a gwerthuso'n ymwneud yn benodol â dulliau cyfathrebu yn cynnwys arolygon o ymwybyddiaeth ac agweddau'r cyhoedd.

### **Arolwg o agweddau'r cyhoedd tuag at roi organau: ton 15**

40. Rydym wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru er mwyn cael gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth y cyhoedd ac agweddau tuag at y system rhoi organau.

Caiff data eu casglu'n rheolaidd rhwng Mehefin 2012 a Mawrth 2020. Cynhaliwyd ton 15 rhwng 26 Chwefror ac 11 Mawrth 2018 a thon 14 (1,011 o ymatebwyr).

### **Y prif gasgliadau**

41. Yn nhon 15, cafodd ymwybyddiaeth o'r ymgyrch hysbysebu ar y teledu a'r radio'n ddiweddar ei hasesu. Dangoswyd yr hysbyseb i unigolion cyn gofyn iddynt a oeddent wedi'i gweld neu ei chlywed o'r blaen. Yn gyffredinol, dywedodd 57% o'r ymatebwyr eu bod wedi gweld yr hysbyseb, a dywedodd 39% eu bod wedi'i chlywed.

Dywedodd dau o bob pump (40%) o'r ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed yr hysbyseb eu bod wedi trafod eu dymuniadau â'u teuluoedd. Dywedodd 18% arall eu bod eisoes wedi trafod eu dymuniadau cyn gweld yr hysbyseb.

Mae gwybodaeth lawn am yr adroddiad i'w gweld yma:

<https://gov.wales/docs/caecd/research/2018/180906-survey-public-attitudes-organ-donation-waves-15-cy.pdf>

### **Y rhagolygon a'r blaenoriaethau**

- 42. Ton 16 o Arolwg Omnibws Cymru i'w gyhoeddi fis Ionawr 2019;
- 43. Parhau â'r ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus a'r hysbysebion tan fis Mawrth 2019;
- 44. Cynllun Buddsoddi Cymunedol, NHSBT;
- 45. Wythnos Rhoddwyr Byw, Ebrill 2019;
- 46. Gemau Trawsblaniadau Prydain, Casnewydd – Gorffennaf 2019.